

Cyfarfod:	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad:	10 Hydref 2019
Teitl:	Cynllun Gwynedd: Prosiect Elwa o Dwristiaeth
Awduron:	Roland Evans Uwch Reolwr Diwylliant a Chymuned Sian Jones Rheolwr Twristiaeth a Marchnata Adran Economi a Chymuned
Aelod:	Cynghorydd Gareth Thomas Aelod Cabinet Economi a Chymuned

1 Cyflwyniad

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi er mwyn diweddarau a chraffu ar brosiect Elwa o Dwristiaeth sy'n ran o Gynllun Gwynedd.

2 Cefndir

- 2.1 Mae'r sector twristiaeth yn bwysig i Wynedd ac mae'r tîm twristiaeth o dan raglen waith Cyngor Gwynedd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:
- Marchnata Digidol – yn cynnwys gwefan www.ymweldageryri.info a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig
 - Digwyddiadau – darparu cymorth ariannol ar gyfer digwyddiadau o'i gyllideb ei hun a chronfa strategol ganolog – darparwyd cymorth i fwy na 25 o ddigwyddiadau yn 2018, yn cynnwys rhai'n gysylltiedig â bwyd, rhedeg, chwaraeon dŵr, triathlon, a gwyliau cerddorol
 - Cydgysylltu â'r diwydiant – yn enwedig drwy hwyluso'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan
 - Rheoli'r berthynas â Croeso Cymru – yn cynnwys cyflwyno ceisiadau ar gyfer gweithgareddau penodol a ariannwyd a'u darparu, un ai ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos.
- 2.2 Er mwyn cydnabod pwysigrwydd y sector hwn a manteisio ar y potensial i elwa o'r holl ymwelwyr sy'n ymweld a'r Sir, yng Nghynllun Gwynedd - a fabwysiadwyd ar 8 Mawrth 2018; nodwyd y canlynol ar gyfer prosiect datblygol yn y maes twristiaeth:

Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd ac mae'r sector yn cyfrannu £1biliwn i'r economi'n flynyddol ac yn cyflogi dros 15,000 yn y sir.

Er hyn, mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir, cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

Ein bwriad yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth trwy wahanol fodelau posib e.e. cynllun rhodd gwirfoddol, cynllun treth lleol & chynlluniau nawdd. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr a thrigolion lleol.

- 2.3 Ein pwrpas trwy'r prosiect Elwa o Dwristiaeth felly yw:

Atgyfnerthu statws Gwynedd fel cyrchfan gynaliadwy o ansawdd rhyngwladol trwy

archwilio a gweithredu'r opsiwn gorau er mwyn sicrhau bod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa o'r twristiaid sy'n ymweld a'r Sir.

2.4 Prif fuddiannau all ddeillio o'r prosiect

- Bydd statws Gwynedd fel cyrchfan gynaliadwy o ansawdd ryngwladol yn cael ei warchod a'i atgyfnerthu trwy fuddsoddi'r elw ddaw o unrhyw gynllun yn y sector a'n cyrchfannau;
- Bydd Gwynedd wedi adnabod y dull gorau o elwa o'r ymwelwyr sy'n ymweld a'r sir er mwyn cynnal y cynnig sydd ar gael yma a datblygu'r sector a'n cyrchfannau;
- Bydd Pobl Gwynedd yn elwa o gyrchfannau bywiog a deniadol a swyddi o ansawdd yn y sector twristiaeth;
- Bydd y sector twristiaeth a Phartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd wedi hatgyfnerthu a chynllun hunan-gynhaliol i gefnogi'r sector a'n cyrchfannau wedi eu sefydlu erbyn diwedd blwyddyn 3 o'r Prosiect

Cynnydd

2.5 Sefydlwyd Grŵp Prosiect mewnol i gefnogi gweithrediad y prosiect ac i gytuno ar raglen waith.

2.6 Er mwyn cefnogi ein prosiect a sicrhau bod y sector yn cefnogi'r gwaith ymchwil, cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda Phartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd a rhanddeiliaid allweddol yn y maes ar 10 Hydref 2018.

2.7 Bwriad y cyfarfod oedd adolygu Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd, amlygu'r cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor a'r sector gyhoeddus yn gyffredinol ac adnabod ffyrdd posib o gyllido blaenoriaethau a chefnogi'r sector twristiaeth, cyrchfannau ac adnoddau eithriadol Gwynedd i'r dyfodol.

2.8 Yn sgîl y cyfarfod hwnnw, datblygwyd Bwrdd Llywio Prosiect gyda chynrychiolaeth amrywiol o: Gyngor Gwynedd, Partneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Arloesi Gwynedd Wledig, Y Ffederasiwn Busnesau Bach, Rhwydwaith Busnes Gwynedd a chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth.

2.9 Er mwyn cefnogi'r prosiect, datblygodd y Bwrdd Prosiect Brîff i'w gomisiynu gan ymgynghorwyr. Nod y comisiwn oedd canfod ymgynghorwyr addas a phrofiadol er mwyn adnabod model gweithredu ffafriedig gan ystyried y gefnogaeth i'r opsiwn gan y sector a'r Cyngor, y gost o'i weithredu a'r budd posib allai ddeillio o'i weithredu. Roedd angen i'r ymgynghorwyr hefyd ystyried yr holl waith ymchwil sydd wedi ei wneud i'r maes yma yng Ngwynedd ers 2013.

3 Brîff y Comisiwn Elwa o Dwristiaeth

3.1 Rhannwyd prif dasgau'r comisiwn i ddau gam:

Cam 1 - Asesiad o modelau posibl

Cwblhau asesiad fydd yn ystyried y canlynol:

- Modelau neu gynlluniau ariannu llwyddiannus mewn ardaloedd eraill;
- Modelau a weithredir oddi fewn i Wynedd yn barod, gwersi a ddysgwyd trwyddynt ac ystyriaeth os oes modd ymestyn y rhain i weithredu ar draws Gwynedd;
- Darpariaeth gyfredol o gefnogi Rheolaeth Cyrchfannau twristiaeth Gwynedd;
- Bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth sydd angen derbyn sylw trwy'r

model gweithredu a argymhellir ac ystyried blaenoriaethau posib ar sail y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan;

- Canfod barn a mewnbwn y sector ar lein i unrhyw fodolau gweithredu posibl.
- Adroddiad yn crynhoi'r uchod.

Cam 2 – Argymhelliad a modelau cyllido

- Darparu gweledigaeth a blaenoriaethau buddsoddi posib i'r dyfodol
- Adnabod y model gorau i wireddu'r cynllun rheolaeth cyrchfan, cefnogi datblygiad y sector a'r cynnig yn lleol;
- Darparu model a strategaeth gweithredu ar gyfer cyflawni'r model ar buddion rheolaeth cyrchfan yn gysylltiedig a hynny;
- Darparu costau manwl ar gyfer sefydlu a gweithredu'r model gan gynnwys darparu amcan o'r incwm posib ellid ei gyflawni o'i weithredu;
- Adroddiad drafft yn amlinellu Cam 1 a Cham 2;
- Cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil i bwyllgorau perthnasol;
- Darparu Adroddiad, Achos Busnes a Chynllun Gweithredu terfynol.

4. Diweddariad

4.1 Yn dilyn proses gaffael agored ar gwerthwchigymru, bu i'r Cyngor benodi Bluechip Tourism ac RJS i ymgymryd a'r gwaith ymchwil ar ran y Cyngor a'r Bwrdd Rheoli Prosiect a chynhaliwyd gweithdy ychwanegol gyda'r sector ar 11 Mawrth 2019 yn ogystal â thrafodaethau unigol gyda rhanddeiliaid. Datblygwyd holiadur arlein i adnabod blaenoriaethau a barn yn ehangach wrth symud ymlaen gyda'r argymhellion.

4.2 Mae adroddiad drafft wedi ei dderbyn sy'n amlygu bod newid yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n rhaid digwydd gan y Bartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan ac mai'r blaenoriaethau buddsoddi fyddai ansawdd y profiad (yn cynnwys isadeiledd elfennol) a marchnata arlein.

4.3 Mae pedwar prif opsiwn ar gyfer cynhyrchu refeniw yn cael eu hamlygu er ystyriaeth:

4.3.1 Cynllun Rhodd Ymwelwyr (wedi'i seilio ar Rhodd Eryri)

O dan yr opsiwn yma, byddai ymwelwyr yn cael eu hannog i gyfrannu'n wirfoddol tuag at gynllun rhodd ymwelwyr mewn gwestai, atyniadau, llety gwyliau neu gyrchfannau penodol er mwyn cefnogi cynlluniau megis gwaith cadwraeth, cynnal cyrchfan, atyniad, diwylliant a iaith ayb. Byddai hwn yn ymestyniad o'r Cynllun Peilot Rhodd Eryri ond yn cael ei weithredu ar draws Gwynedd, o bosib wedi ei selio ar yr 8 Ardal Llesiant.

4.3.2 Ardal Gwella Busnes (AGB) Twristiaeth

O dan yr opsiwn yma byddai model tebyg i AGB Caernarfon a Bangor yn cael ei ddatblygu ar draws holl fusnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Ngwynedd. Byddai ardoll yn cael ei godi ar drethi busnes cysylltiedig a'r sector twristiaeth. Mae hefyd modd trosglwyddo'r cyfraniad 'ardoll' hwn i'r ymwelydd trwy godi rhai prisiau / ffioedd.

4.3.3 Ardoll Dwrystiaeth

Byddai'r opsiwn yma'n datblygu ardoll i'w roi ar bob ymwelydd â Gwynedd. Mae'n debyg mai trwy'r sector llety ac atyniadau fyddai'r ffordd hwylusaf o gasglu'r arian – ond nid oes grym gan y Cyngor ar hyn o bryd i godi'r fath ardoll orfodol. Byddai hwn yn ymdebygu i'r dreth

dwrastiaeth leol a welir mewn nifer o gyrchfannau tramor.

4.3.4 Masnacholi mewn gwahanol ffyrdd

Ceisio cael cwmnïau neu sefydliadau eraill i noddi cynnyrch a gwasanaethau e.e cylchfannau, toiledau, llyfryn Eryri Mynyddoedd a Môr, digwyddiadau ayb

- 4.4 Mae gwahanol gryfderau a gwendidau i'r holl opsiynau hyn ac mae eu gallu i gynhyrchu refeniw yn amrywio'n sylweddol hefyd.
- 4.5 Mae'n rhaid cydnabod hefyd y gallai rhai opsiynau fod yn gynhennus gyda'r sector twristiaeth yng Ngwynedd a mae rhai lle nad oes hawl gan y Cyngor i'w gweithredu ar hyn o bryd.

5. Cyd-destun ehangach

- 5.1 Bu i'r Cyngor gynnal adolygiad o stoc lletai Gwynedd yn ystod 2018-2019. Mae nifer o ystyriaethau'n deillio o'r adolygiad hwnnw all ddylanwadu a llywio ein gweithgareddau dros y blynyddoedd nesaf.
- 5.2 Mae'r Cyngor yn y broses o adolygu ein Cynllun Rheolaeth Cyrchfan gan adnabod blaenoriaethau buddsoddi newydd i'r dyfodol yn ogystal â model gweithredu newydd ar gyfer Partneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd.
- 5.3 Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu Strategaeth Dwrastiaeth newydd i Gymru a bydd angen i ni ystyried y Strategaeth honno i'r dyfodol ar gyfer e.e. cronfeydd ariannu, datblygiadau twristiaeth strategol, cynnal a chryfhau'r sector yng Ngwynedd ayb.
- 5.4 Mae'r Cyngor yn cynnal ymchwil ac adolygiad i'r maes ail-gartrefi a pholisi cynllunio ar hyn o bryd allai lywio ein polisiau a'n blaenoriaethau i'r dyfodol.
- 5.5 Yng ngoleuni'r uchod y bwriad yw i'r Cyngor ddatblygu fframwaith o egwyddorion ar gyfer y maes twristiaeth er mwyn adlewyrchu'r holl adolygiadau, datblygiadau newydd ac wrth gwrs ymchwil cychwynol y prosiect Elwa o Dwrastiaeth er mwyn gosod cyfeiriad clir i'r dyfodol.

6. Amserlen

Bwriedir dilyn yr amserlen ganlynol:

Hydref 2019	Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Tachwedd+Rhagfyr	Datblygu Fframwaith Egwyddorion Twristiaeth Gwynedd
Ionawr – Mawrth 2020	Datblygu Cynllun Twristiaeth newydd i Wynedd Ymgynghoriad gyda'r sector Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu
Ebrill 2020	Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd am benderfyniad
Ebrill 2020 →	Mabwysiadu'r Cynllun Twristiaeth Gweithredu'r opsiwn a ffefrir gan y Cabinet

7. Casgliad

- 6.1 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i graffu'r drefn weithredu ar gyfer y prosiect Elwa o Dwrastiaeth.
- 6.2 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i graffu'r Fframwaith Twristiaeth i'r dyfodol pan yn amserol gwneud hynny.